

Dogfen polisi briodol

Atodlen 1, Rhan 4, Deddf Diogelu Data 2018

Prosesu data categori arbennig a throseddau i ddibenion cyflogaeth a chysylltiedig

Pwy ydyn ni

Sefydlwyd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)¹ i oruchwylio system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr a chynnal hyder y cyhoedd ynddi.² Sefydlir ein pwerau a dyletswyddau yn Neddf Diwygio'r Heddlu 2002 ("PRA") a rheoliadau cysylltiedig. Er mwyn cyflawni ein cylch gorchwyl statudol, rydym yn cyflawni ymchwiliadau annibynnol i gamymddwyn honedig a marwolaethau neu anafiadau difrifol yn dilyn cyswllt gyda'r heddlu. Rydym hefyd yn pennu apeliadau o ymchwiliadau'r heddlu i gŵyn. Rydym yn defnyddio dysgu o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona gyda'r bwriad o hyrwyddo arfer gorau. Fe wnawn hyn trwy wneud datganiadau cyhoeddus, gwaith allgymorth gyda rhanddeiliaid, gwneud argymhellion sefydliadol, cyflawni ymchwil, dadansoddi a chasglu ystadegau er mwyn cynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau thematig

Am ragor o wybodaeth ar yr hyn a wnawn, ewch [i'n gwefan](#).

Beth mae'r polisi hwn yn wneud

Mae'r polisi hwn yn esbonio sut a pham mae'r IOPC yn prosesu data personol sensitif amdanoch chi i weinyddu ein perthynas cyflogaeth neu gytundebol gyda chi a gweithgareddau cysylltiedig, yn unol â'r egwyddorion diogelu data a sefydlir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 (GDPR). Dim ond os y'i cyflawnir yn unol â'r polisi hwn y gellir prosesu data personol sensitif yn gyfreithlon. Felly rhaid i staff yr IOPC dalu sylw i'r polisi hwn wrth drin data personol sensitif ar ran y sefydliad.

Ein hymagwedd tuag at ddiogelu data

¹ Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu gynt. Sefydlwyd yr IOPC ar 8^{fed} Ionawr 2018.

² Rydym hefyd yn goruchwyllo'r system gwynion ar gyfer sefydliadau eraill, megis HMRC, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, ac Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur.

Mae'r IOPC yn ymroddedig i fframwaith sicrwydd gwybodaeth a llywodraethu data sy'n glir ac yn hygyrch ac sy'n sicrhau y cyflawnir gwaith casglu a phrosesu data yn unol â'r GDPR a'r Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA). Mae'r fframwaith sicrwydd a llywodraethu gwybodaeth yma wedi ei ategu gan gynllun o ddirprwyo a fframwaith gwneud penderfyniadau yn sicrhau bod diogelu data wedi ei ystyried yn benodol gan ein staff ac uwch arweinwyr, yn cynnwys ein Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth. Rydym hefyd yn ceisio meithrin diwylliant o ddiogelu data trwy gynllun ac yn ddiodyn trwy ddatblygu llawlyfr diogelu data ar draws y busnes. Bwriad y llawlyfr hwn yw tywys defnyddwyr trwy brosesau newydd, gan sicrhau bod diogelu data yn ganolog i'r penderfyniadau a wnawn.

Mae'r IOPC yn gwerthfawrogi bod yn agored a thryloywder, ac rydym wedi ymroi i a chyhoeddi nifer o bolisiâu a phrosesau i gynorthwyo gwrthrychau data ac i esbonio sut ydym yn delio â data personol. Mae hyn yn cynnwys amserlen ddargadw a gwaredu a hysbysiadau preifatrwydd sy'n disgrifio pa wybodaeth sydd gennym, pam ein bod yn ei gadw, y sail gyfreithiol dros ei gadw, gyda phwy fyddwn ni'n ei rannu, ac am ba gyfnod fyddwn ni'n ei gadw.

Mae'r IOPC wedi adeiladu rhwydwaith o Berchnogion Asedau Gwybodaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr wybodaeth a gesglir gan eu hadran yn angenrheidiol i'r dibenion gofynnol ac nad yw'n cael ei chadw mewn modd sy'n gallu datgelu pwy yw'r unigolyn yn hirach nag sydd angen. Maent yn gyfrifol yn gyfunol am sicrhau y cedwir Cofrestr Asedau Gwybodaeth yr IOPC yn gyfredol a'i fod yn adlewyrchu'r wybodaeth sydd gan yr IOPC yn gywir a'r sail gyfreithiol am ei chadw. I gefnogi'r rhwydwaith hon mae pob aelod o staff yn cyflawni hyfforddiant diogelu data gofynnol bob blwyddyn ac yn cytuno trwy lofnodi datganiad y byddant yn cynorthwyo'r ddeddfwriaeth berthnasol, eu bod yn deall y prosesau a pholisiâu sydd gan yr IOPC ar waith i sicrhau ei fod yn cydymffurfio, a'u bod yn deall sut mae diogelu data yn ffitio i mewn i'w gwaith.

Oherwydd natur y gwaith a gyflawnir gan yr IOPC, yn aml bydd y sefydliad angen rhannu gwybodaeth gyda phartïon eraill. Mae gan yr IOPC gyfres o Gytundebau Rhannu Gwybodaeth sy'n llywodraethu trosglwyddiad gwybodaeth rhwng partïon. Yn ogystal, mae Cofrestr Asedau Gwybodaeth yr IOPC yn sefydlu'n glir y categorïau o dderbynyddion y rhennir gwybodaeth â nhw.

Yr egwyddorion diogelu data

I grynhoi, dywed Erthygl 5 y GDPR y bydd data personol:

- yn cael ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw
- yn cael ei gasglu i ddibenion penodol a chyfreithlon a'i brosesu yn unol â'r dibenion hynny

- yn ddigonol, berthnasol a chyfyngedig i beth sy'n angenrheidiol i'r dibenion a nodwyd
- yn gywir a, ble fo angen, yn gyfoes
- yn cael ei gadw yn ddim hirach nag sydd angen; ac
- yn cael ei gadw yn ddiogel.

Data categori arbennig a data troseddau

Data categori arbennig

Mae data personol yn cyfeirio at unrhyw wybodaeth ble gellir adnabod unigolyn byw. Gall adnabod unigol fod trwy wybodaeth yn unig neu mewn perthynas â gwybodaeth arall. Mae gan gategorïau penodol o ddata personol amddiffyniadau cyfreithiol wrth eu prosesu. Cyfeirir at y categorïau hyn yn y ddeddfwriaeth fel “data categori arbennig” ac mae'n ddata yn ymwneud ag:

- iechyd
- cefndir hiliol neu ethnig
- barnau gwleidyddol
- credoau crefyddol neu athronyddol
- aelodaeth undeb llafur
- data genetig
- data biometrig
- bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol

Data troseddau

Mae mesurau diogelwch cyfreithiol atodol i broses data troseddau hefyd. Mae data troseddau yn cynnwys gwybodaeth am gyhuddiadau troseddol, troseddau, achosion troseddol a cholffarnau troseddol.

Data categori arbennig a throseddau amdanoch chi y byddwn yn prosesu

Os byddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, rydych yn “wrthrych data.” Efallai eich bod yn:

- gyflogai presennol
- gyflogai blaenorol
- ddarpar gyflogai

- staff asiantaeth
- prentis
- ymgynghorydd
- myfyriwr neu intern
- contractwr
- secondai
- unigolyn yn cynrychioli cyflenwr darpariaeth gwasanaeth 3^{ydd} parti (er enghraifft, cynrychiolydd o'n darparwr Iechyd Galwedigaethol neu weinyddwyr ein cyflogres).

Mae'r IOPC yn casglu a chadw data categori arbennig a throseddau ble mae'n angenrheidiol ar gyfer eich darpar gyflogaeth, cyflogaeth presennol neu flaenorol gyda'r IOPC a swyddogaethau cysylltiedig. Byddwn hefyd yn casglu a dargadw'r data hwn ble byddwch yn cyflawni gwaith gyda ni neu'n darparu eich gwasanaethau i ni dan unrhyw drefniant cytundebol arall. Byddwn yn defnyddio'r data hwn er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau i chi fel ein cyflogai ac unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol sydd gennym fel cyflogwr neu dan ein trefniant cytundebol. Rydym hefyd yn rhannu'r data yma gyda thrydydd partion perthnasol ble fo angen (gweler yr adran "Gyda phwy ydyn ni'n rhannu eich data" isod).

Byddwn yn casglu eich data personol gan nifer o wahanol ffynonellau, yn cynnwys: chi, aelodau eich teulu, eich geirdaon, sefydliadau addysgol blaenorol neu bresennol yr ydych wedi eu mynychu neu yn mynychu, eich cyflogwr blaenorol neu gyfredol, darparwr gofal iechyd ac / neu ddarparwr iechyd galwedigaethol, eich meddyg teulu, eich asiantaeth, eich Undeb, yr heddlu, asiantaethau diogelwch, adrannau o'r llywodraeth, y Coleg Plismona, darparwyr gwasanaethau trydydd parti (yn cynnwys darparwyr ein plattform recriwtio, ein swyddogaeth AD mewnol, systemau TG a gweinyddiaeth ein cynllun talebau gofal plant), Dysgu'r Gwasanaeth Sifil a darparwyr eraill systemau rheoli dysgu neu hyfforddiant, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), Disclosure Scotland, eich banc, HMRC a'ch darparwr pensiwn.

Gall y data categori arbennig y byddwn yn casglu a phrosesu amdanoch gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, y canlynol: gwybodaeth feddygol (e.e. i ddibenion cyflawni addasiadau rhesymol dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, asesiadau risg a gweithredu ein polisi salwch); eich hil neu darddiad ethnig ac/neu eich credoau crefyddol a chyfeiriadedd rhywiol (e.e. i fonitro cyfle cyfartal, wrth gasglu ystadegau a chyflawni dadansoddiad i ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 neu ymateb i gais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000). Ble fo'n bosibl byddwn yn gwneud eich data yn ddienw.

Rydym hefyd yn prosesu gwybodaeth a ddarparwyd gan eich undeb llafur i'r diben o weinyddu eich tanysgrifiad trwy'r gyflogres.

Yn rhan o glirio diogelwch uwch sy'n ofynnol ar gyfer rhai cyflogeion, gallwn gaffael a

phrosesu data categori arbennig parthed rhai o'ch perthnasau personol.

Nid yw'r IOPC yn cadw cofrestr gynhwysfawr o gollfarnau troseddol neu rybuddion darpar staff na staff cyfredol. Fodd bynnag, yn rhan o'n prosesau cyn cyflogaeth, bydd pob unigolyn yn destun cliriad diogelwch a fydd yn cynnwys casglu gwybodaeth am gollfarnau troseddol neu rybuddion gennyh chi a gan drydydd partion. Bydd yr IOPC yn cadw'r wybodaeth hon yn ystod cyfnod eich cyflogaeth ac yn dilyn mewn amgylchiadau penodol.

Dibenion cyflogaeth a chysylltiedig

Mae'r dibenion cyflogaeth a chysylltiedig ble byddwn yn prosesu data categori arbennig a throseddau yn cynnwys:

- i gynnal cofnodion cyflogaeth cywir
- i ddarparu geirdaon
- i ddibenion recriwtio a dethol (yn cynnwys eich statws hawl i weithio a phreswyllo)
- i weithredu'r gyflogres (yn cynnwys ad-dalu treuliau), gweinyddu eich pensiwn ac unrhyw fuddion eraill fel fo'n briodol, bydd hyn yn cynnwys prosesu gwybodaeth fel eich cyflog, dibynyddion, dynodwyr llywodraeth fel eich rhif yswiriant gwladol a manylion eich cyfrif banc
- i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer darpar gyflogeion a chyflogeion presennol ac i gael cyngor am iechyd galwedigaethol
- i gadw cofnod o'ch manylion cyswllt (yn cynnwys manylion cyswllt argyfwng)
- i gyflawni gweithdrefnau fetio cyn ac wedi cyflogaeth yn cynnwys gwiriad DBS a gweithdrefnau clirio diogelwch eraill
- i fonitro defnydd staff o systemau'r IOPC yn unol â'n polisiau diogelwch, yn cynnwys mynediad at eiddo cyfrifiaduron a defnydd ffôn ac i adrodd am doriadau data neu weithgareddau amheus ble fo'n briodol
- i fonitro eiddo'r IOPC (yn cynnwys trwy CCTV) i ddibenion diogelu'r IOPC a'i weithlu rhag anaf, lladrad, twyll atebolrwydd cyfreithiol neu gam-drin
- i hwyluso, cynnal cofnodion cywir o a sicrhau cydymffurfiad gyda pholisiau rheoli gweithle'r IOPC (yn cynnwys salwch, gwyliau blynyddol a mathau eraill o absenoldeb, perfformiad gwael, disgyblaeth, cwynion, chwythu'r chwiban a diogelwch gwybodaeth)
- i weithredu a chadw cofnod o fathau eraill o absenoldeb fel absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb mabwysiadu
- i ymchwilio i gwynion difrifol a wnaethpwyd yn erbyn staff yr IOPC. Mae cwynion o'r fath yn cael eu rheoli gan Uned Ymchwiliadau Mewnol (IIU) yr IOPC.³
- i fonitro cydymffurfiad gyda Chod Ymddygiad, Cofrestr Gwrthdaro Buddiannau a Chofrestr Lletygarwch a Rhoddion yr IOPC
- i fonitro presenoldeb a chyfranogiad mewn digwyddiadau hyfforddiant cysylltiedig

³ Yn unol â'r Rheoliadau (Ymddygiad Staff) IPCC 2004

â'r gwaith mewnol, allanol ac ar-lein (er enghraifft, trwy wefan Dysgu'r Gwasanaeth Sifil)

- i fonitro data recriwtio a chysylltiedig â pherfformiad fel amcanion, sylwadau, adborth, sgiliau a chymwyseddau, cymwysterau cysylltiedig â'r gwaith a gwybodaeth berthnasol arall i Gofnodion Datblygiad Personol staff
- i gynhyrchu ystadegau perthnasol a chyflawni dadansoddiad ar gyfer cydymffurfriad gyda deddfwriaeth cydraddoldeb
- i fonitro ac adrodd ar gyfleoedd cyfartal
- i wneud datgeliad priodol i ddibenion cyflogaeth ac achosion cyfreithiol cysylltiedig eraill
- i hyrwyddo'r IOPC trwy fideos a llenyddiaeth hyrwyddo
- i gyflawni ein rhwymedigaethau cytundebol gyda chyflenwyr trydydd parti a darparwyr gwasanaeth

Y sail gyfreithiol dros brosesu eich data categori arbennig a throeddau

Contract a rhwymedigaeth gyfreithiol

Os ydych chi'n gyflogai byddwn yn casglu a phrosesu eich data categori arbennig neu droseddau, yn cynnwys ei ddarparu i drydydd partiön, ble mae'n angenrheidiol gwneud hynny i berfformio ein contract cyflogaeth gyda chi neu ble mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol i wneud hynny (er enghraifft, gwneud addasiadau rhesymol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010).⁴

Os ydych chi'n cyflawni gwaith gyda ni neu'n darparu eich gwasanaethau i ni dan unrhyw drefniant cytundebol arall, byddwn yn casglu a phrosesu eich data categori arbennig neu droseddau, yn cynnwys ei ddarparu i drydydd partiön, ble mae'n angenrheidiol gwneud hynny i gyflawni'r contract hwnnw.

Cydsyniad

Fel darpar gyflogai (cyn i chi ddod i gytundeb cyflogaeth gyda ni) fyddwn ni ddim ond yn casglu a phrosesu eich data categori arbennig neu ddata troseddol ar sail eich cydsyniad penodol i ni wneud hynny. Gallwch dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. Fodd bynnag, os byddwch yn tynnu eich cydsyniad yn ôl neu'n gwrthod darparu'r data gofynnol ar gyfer y broses recriwtio, efallai na fyddwn yn gallu symud eich cais ymlaen yn gywir neu o gwbl.

Fel cyflogai presennol, efallai y bydd achlysuron pan fydd angen gofyn am eich cydsyniad penodol i brosesu eich data categori arbennig. Er enghraifft, pan fyddwch yn gofyn am a defnyddio Dyfais Diogelwch Personol sydd â'r gallu i gyfleu gwybodaeth am eich iechyd i'r darparwr gwasanaeth trydydd parti dyfeisiau o'r fath, bydd angen eich cydsyniad.

⁴ Erthygl 6(1) (b); Erthygl 9(2)(b); Erthygl 10 GDPR. Adran 10(5) a Rhan 1 (1), Atodlen 1 DPA 2018.

Ble bynnag y byddwn eisiau prosesu eich data trwy gydsyniad, cyn rhoi eich cydsyniad byddwch yn derbyn ffurflen cydsyniad. Bydd hyn yn esbonio:

- beth ydym yn gofyn i chi gytuno iddo a pham
- sut fydd eich data yn cael ei ddefnyddio
- enwau unrhyw reolyddion trydydd parti fydd yn dibynnu ar y cydsyniad;
- eich hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg;
- y broses ar gyfer tynnu eich cydsyniad yn ôl
- gyda phwy i gysylltu os oes gennych unrhyw bryderon am ddefnydd o'ch data

Monitro Cyfle Cyfartal

Gallwn brosesu data categori arbennig ble mae'n angenrheidiol i ddibenion nodi ac adolygu presenoldeb neu absenoldeb cydraddoldeb cyfle neu driniaeth rhwng grwpiau o bobl a bennir yn Atodlen 1, Rhan 2, paragraff 8(2) y Ddeddf Diogelu Data 2018. Bydd y prosesu hwn yn digwydd gyda'r bwriad o alluogi hyrwyddo neu gynnal cydraddoldeb ac nid yw'n cael ei gyflawni i'r diben o fesur penderfyniadau parthed gwrthrych data penodol. Ni chyflawnir prosesu o'r fath ble mae cydsyniad wedi ei wrthod neu os ydych wedi hysbysu nad ydych eisiau prosesu eich data i'r dibenion hyn. Dim ond ble nad yw'n debygol o achosi difrod neu drallod sylweddol i unigolyn fydd hyn cael ei gyflawni. Bydd unrhyw ddata a ddefnyddir i'r diben hwn yn cael ei wneud yn ddienw.

Diddordebau Cyfreithlon

Mae yna rai amgylchiadau ble byddwn yn prosesu data categori arbennig ar sail y ffaith fod gan yr IOPC diddordeb cyfreithlon mewn gwneud hynny. Er enghraifft, pan fyddwn yn casglu gwybodaeth am gyda phwy i gysylltu mewn argyfwng ac fe ddefnyddir CCTV ar eiddo'r gweithle. Rydym yn ystyried bod sicrhau bod gennym fanylion cyswllt ar gyfer argyfwng yn ymwneud â'n staff ac amddiffyn diogelwch ein heiddo a'r wybodaeth a gedwir yno yn diddordebau cyfreithlon.

Byddwn yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng ein diddordebau cyfreithlon a hawliau a rhyddidau sylfaenol gwrthrychau data.

Gyda phwy ydyn ni'n rhannu eich data personol

Ar gyfer y dibenion cyflogaeth a chysylltiedig a sefydlir uchod, byddwn angen rhannu eich data categori arbennig a throseddau gyda thrydydd partion. Y categorïau o bobl y byddwn yn rhannu eich data gyda nhw yw:

- ein darparwr cyflogres
- ein darparwr pensiynau
- darparwyr buddion cysylltiedig â gwaith (er enghraifft, gweinyddwyr ein cynllun talebau gofal plant)

- HMRC ac adrannau eraill y llywodraeth
- cyrff cyhoeddus
- ein darparwr gofal iechyd ac / neu ein darparwr iechyd galwedigaethol
- eich banc (er enghraifft, pan fyddwch yn gofyn i ni eich helpu gyda chais am forgais)
- Disclosure Scotland a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (i ddibenion diogelwch a gweithdrefnau fetio eraill)
- Uned Ymchwiliadau Mewnol (IIU) yr IOPC
- asiantaethau cyflogaeth
- cyflenwyr a darparwyr gwasanaeth trydydd parti (e.e. darparwyr ein Dyfeisiau Diogelwch Personol a'n systemau TG swyddogaethau AD mewnol)
- y cyhoedd (er enghraifft, i ddibenion tryloywder bydd yr IOPC yn cyhoeddi manylion perthnasol staff uwch o'i Gofrestr Lletygarwch a Rhoddion a Chofrestr Gwrthdaro Buddiannau)

Mae hefyd yn ofynnol i ni rannu eich data gyda thrydydd parti ble mae gofyniad cyfreithiol i wneud hynny. Rydym yn rhannu gwybodaeth gyda chyrff cyhoeddus eraill ac adrannau o'r llywodraeth er mwyn hwyluso eu gwaith o gyflawni swyddogaethau statudol a chyhoeddus. Y categorïau o bobl y byddwn yn rhannu eich data gyda nhw yw:

- crwneriaid
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- llysoedd a thribiwnlysoedd
- cyrff cyhoeddus (er enghraifft, y Coleg Plismona)
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- heddluoedd ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill
- cyrff rheoleiddio neu ombwdsmyrn yn cynnwys HMICFRS, HMIP, a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- cynghorwyr, arbenigwyr neu ymgynghorwyr proffesiynol

Gwneud penderfyniadau awtomataidd

Mae ein proses recriwtio yn cynnwys rhywfaint o benderfyniadau awtomataidd ble bydd ymatebion penodol i gwestiynau fel eich hawl i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig yn arwain at derfynu eich cais yn awtomataidd.

Sut ydych chi'n cadw eich data'n ddiogel ac am ba hyd fyddwn ni'n ei gadw

Mae'r IOPC yn gweithredu nifer fawr o reoliadau Technegol a Gweithdrefnol er mwyn diogelu'r data personol mae'n gadw a phrosesu. Mae'r rheoliadau hyn yn cael eu gweithredu wedi Asesiad Risg Gwybodaeth a gyda throsolwg Pwyllgor Llywodraeth Sicrwydd Gwybodaeth (Gweithgor Diogelwch) o gyfansoddiad priodol dan Gadeiryddiaeth y Pennaeth Diogelwch Technoleg Gwybodaeth (TG). Derbynnir Risg Gwybodaeth

Gweddilliol ar ran yr IOPC gan yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth.

Mae'r rheoliadau wedi eu halinio i'r Safon Sicrwydd Ansawdd ISO27001 ac fe asesir Risgiau Gwybodaeth yn unol â Safon Ryngwladol ISO27005. Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- Hyfforddiant Diogelwch Gwybodaeth blynyddol gofynnol i'r holl staff
- Defnydd derbyniol o offer a system TG wedi ei ddiffinio yn y Gweithdrefnau Gweithredu Diogelwch a lofnodir gan holl ddefnyddwyr systemau'r IOPC
- Rheoliadau Mynediad Seiliedig ar rôl, yn cyfyngu defnyddwyr system yr IOPC i gael mynediad at y systemau hynny sy'n angenrheidiol iddynt gyflawni eu dyletswyddau yn unig
- Rheoli Hunaniaeth a Mynediad trwy bolisiâu cyflogi a chyfeirio Adnoddau Dynol, yn cynnwys Clirio Diogelwch HMG. Mae mynediad allanol i systemau'r IOPC wedi ei lywodraethu gan ddilysiad dau ffactor ac fe'i rhoddir i gyflogeion newydd neu gontractwyr wedi gwiriadau diogelwch a briffio diogelwch gan staff Diogelwch TG arbenigol yn unig
- Amddiffyniad cryf o system TG graidd yr IOPC (e.e. Muriau Tân, Canfod ac Amddiffyn rhag Drwgwedd)
- Amgryptio Data wrth orffwys ac wrth drosglwyddo ar draws rhwydweithiau penodol yr IOPC fel fo'n briodol
- Monitro ac / neu gofnodi gweithgaredd digidol a defnyddwyr i mewn i, o fewn ac allan o systemau IOPC
- Gweithredu Offer Diogelwch Gwybodaeth (e.e. Atal Colli Data, Rheoli Dyfeisiadau Symudol, E-bost Allanol Diogel)
- Sicrwydd o Bensaernïaeth Diogelwch Technegol yr IOPC gan bartneriaid Annibynnol 3^{ydd} parti
- Achrediad Annibynnol o Systemau'r IOPC; gorfodir trwy gytundeb
- Gofyniad i ardystio pob Prosesydd Data 3^{ydd} parti IOPC yn erbyn Safon ISO27001 neu, ble fo'n briodol, fframwaith 'Hanfodion Seibir' yr NCSC
- Gwiriadau Iechyd a Phroffion Treiddiad TG blynyddol ac ad-hoc gan dimau profi ardystiedig CHECK annibynnol; gan ddilyn gyda thriniaeth o wendidau a nodwyd
- Gweithdrefnau cadarn i adrodd am unrhyw doriadau data neu doriadau posibl.

Mae'r IOPC yn adolygu a diwygio'r rheoliadau hyn yn rhan o Gynlluniau Gwella Diogelwch parhaus

Mae gan yr IOPC amserlen cadw a gwaredu sy'n rhestru data sydd gennym ac am ba hyd ddylem ei gadw. I gael gwybod am faint fyddwn yn cadw eich data, gweler ein Hamserlenni Cadw a Gwaredu [Corfforaethol](#) a [Gweithredol](#).

Eich hawliau parthed y data a gedwir gennym

Mae deddfwriaeth diogelu data yn darparu nifer o hawliau i chi parthed eich data personol.

Mae'r hawliau hyn yn amodol i rai eithriadau penodol. Gallai'ch hawliau gynnwys:

- yr hawl i fynediad at eich data
- yr hawl i gael cywiro eich data os yw'n anghywir neu'n anghyflawn
- yr hawl i ofyn am gyfyngiadau ar brosesu eich data
- yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data
- yr hawl i gael dileu eich data
- yr hawl i gael gwybod sut mae eich data yn cael ei brosesu
- hawliau yn ymwneud â gwneud penderfyniadau awtomataidd a gallu i gludo data

Dylech roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch gwybodaeth er mwyn i ni allu bod yn hyderus bod y data sydd gennym amdanoch yn gywir.

I ddeall mwy am yr hawliau hyn a sut i'w harfer, gweler ein [gwefan](#).

Ein Rheolydd Data a Swyddog Diogelu Data

Ein rheolydd data yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae gan y rheolydd data reolaeth gyffredinol dros y diben ac ym mha fodd byddwn yn caffael a phrosesu data personol ac mae'n rhaid iddo sicrhau y gwneir hyn yn unol â'r egwyddorion diogelu data.

Mae gan yr IOPC hefyd Swyddog Diogelu Data a Thîm Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data penodedig. Mae'r tîm hwn yn gyfrifol am:

- hwyluso hawliau gwrthrych gwybodaeth a gwneud penderfyniadau allweddol ynghylch a oes gan yr ymgeisydd hawl i fynediad at y data gofynnwyd amdano
- cefnogi Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth, a gadeirir gan SIRO'r sefydliad, i ddal y sefydliad yn atebol am ei arferion diogelu data
- arwain cydweithrediad gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer y sefydliad
- penderfynu os oes angen asesiad diogelu data pan gynigir newid mewn prosesau busnes a chynghori i sicrhau cydymffurfiaid gyda chyfreithiau diogelu data perthnasol
- ymateb i bryderon gan y cyhoedd parthed sut mae'r IOPC yn prosesu data personol
- cynghori os bydd unrhyw brosesydd data arfaethedig yn cydymffurfio â diogelu data
- cyflawni ymchwiliadau i doriadau data o fewn y busnes ac argymhell newidiadau priodol i sicrhau y cedwir at dulliau arfer gorau
- darparu cyngor annibynnol i'r sefydliad ar ei rwymedigaethau diogelu data ac adrodd am achosion ble na ddilynwyd cyngor y DPO i uwch reolwyr

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon am arfer eich hawliau data neu'r modd y byddwn yn casglu, trin neu brosesu eich data, cysylltwch â'r tîm naill ai trwy [dudalen cysylltwch â ni ein gwefan](#) neu trwy anfon e-bost at mdpo@policeconduct.gov.uk.

Neu gallwch gysylltu â'n switsfwrdd ar 0300 020 0096 rhwng 9am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener.

Eich hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os ydych chi'n anfodlon gydag unrhyw agwedd o'r modd rydym wedi prosesu eich data personol, mae gennych hawl i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF

www.ico.org.uk

Ffôn: 0303 123 1113

casework@ico.org.uk

Adborth neu gwynion am ein gwasanaeth neu staff

Os ydych chi eisiau rhoi adborth i ni neu wneud cwyn am ein gwasanaeth neu staff, cysylltwch â'n Huned Ymchwiliadau Mewnol naill ai [trwy dudalen cysylltwch â ni ein gwefan](#) neu trwy anfon e-bost at IU@policeconduct.gov.uk.

Neu gallwch gysylltu â'n switsfwrdd ar 0300 020 0096 rhwng 9am a 5pm, dydd Llun i ddydd Gwener neu adael neges llais ar unrhyw adeg ar 0207 166 3261.

Adolygiad o'r polisi hwn

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a gellir ei ddiwygio. Ewch i'n [gwefan](#) i wirio am unrhyw ddiweddariadau.